Protocol HERBERT

Wyddech chi... Cafodd Protocol Herbert ei enwi ar ôl George Herbet, cyn-filwr rhyfel o laniad Normandi, a oedd yn byw gyda Dementia

Byw gyda Dementia

Nid oes dim sy'n peri mwy o ofid neu drallod na phan fydd anwylyd neu ffrind yn mynd ar goll neu'n peidio â dychwelyd adref pan ddisgwylir iddynt.

Ar gyfer pobl sy'n byw neu'n gofalu am rywun â Dementia, gall hyn fod yn eithaf cyffredin. Mae Protocol Herbert yn annog cartrefi gofal, gofalwyr, teuluoedd, ffrindiau neu gymdogion i gofnodi gwybodaeth am y person â dementia a allai helpu'r Heddlu i ddod o hyd iddynt os byddant yn mynd ar goll.

Beth yw'r protocol?

Mae'r protocol hwn yn gofyn i ofalwyr, aelodau o'r teulu a ffrindiau gwblhau ffurflen, yn cofnodi'r holl fanylion hanfodol am eu hanwylyd megis;

- Unrhyw feddyginiaeth sy'n ofynnol
- Rhifau ffôn symudol
- Lleoedd y cawsant eu darganfod yn flaenorol
- Llun diweddar

Gall y wybodaeth hon gael ei rhannu yn gyflym â'r asiantaethau perthnasol os caiff eu hanwylyd ei gofnodi yn berson sydd ar goll.

1604_1

Os oes gennych anwylyd sy'n byw â Dementia ac rydych yn pryderu y byddant yn mynd ar goll, cysylltwch â'ch Swyddogion Cymorth Cymunedol lleol a fydd yn eich cynorthwyo i gwblhau'r ffurflenni. Gellir dod o hyd i'r holl fanylion ar ein gwefan neu anfonwch e-bost at crimeprevention@gwent.pnn.police.uk am ragor o wybodaeth neu i gael ffurflen electonig i'w llenwi.

www.gwent.police.uk

HEDDLU GWENT POLICE